

Papur Bro Abertawe

WILIA

RHIFYN MEDI 2022 | AM DDIM


Croeso i Wilia Medi 2022! Fel y gwelwch, mae Wilia wedi cael ychydig o wedd newidiad ers y rhifyn diwethaf.

Mae gwefan newydd ar gyfer Wilia hefyd o dan ddatblygiad - cadwch olwg ar y rhifynnau nesaf am fwy o newyddion yn sgil hynny!

CYMRAG



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government



I gael eitem yn Wilia mis Hydref anfonwch stori a llun/iau at dudalen Facebook Wilia (Wilia Abertawe), erbyn Medi 24.

Caiff detholiad o straeon eu casglu o'r dudalen ar gyfer rhifyn Hydref.

Mae rhifynnau papur Wilia yn awr yng ngofal Menter Iaith Abertawe felly croeso i chi hefyd gysylltu ag Anys: datblygu@menterabertawe.org

YSGOL GYMRAEG ARALL I'R MWMBWLS?

Cytunodd Cyngor y Mwmbwls yn eu cyfarfod ar Awst 16eg, 2022 i ymddiheuro i Ysgol Llwynderw am beidio â chaniatáu i blant yr ysgol ganu cân Gymraeg yng Ngŵyl y Mwmbwls.

Penderfynwyd hefyd fod y Cynghorydd Rob Marshall yn cael ei symud o fod yn gadeirydd yr is-bwyllgor diwylliant.

Bydd hyn yn siŵr o agor y drws i gynnwys rhagor o weithgareddau Cymraeg yn yr ŵyl y flwyddyn nesaf.

Mae'n ddiddorol edrych yn ôl ar gyfnod sefydlu Ysgol Llwynderw.

Bu'r Cyngor Sir yn hir iawn cyn sefydlu'r ysgol yn ei safle presennol.

Bu'r ysgol am ryw 7 mlynedd mewn ffreutur yn safle Ysgol Esgob Gore, ar ôl cychwyn yno yn 2002.

Bu rhai cynghorwyr yn ardal y Mayals yn uchel eu cloch yn gwrthwynebu sefydlu'r ysgol yno.

Yn y pen draw cafodd ei hagor ar ei safle presennol yn 2009 gan y diweddar Rhodri Morgan, pan oedd yn Brif Weinidog Cymru.

Erbyn hyn, Ysgol Llwynderw yw'r ysgol fwyaf o bell ffordd yn ardal y Mwmbwls, ac mae 20% o blant yr ardal yn derbyn addysg Gymraeg.

Dyma niferoedd y disgyblion yn yr ysgol, yn cyfateb i amser llawn, Ebrill 2021. Mewn cromfachau mae'r nifer o lefydd yn yr ysgol.

Llandeiloferwallt 257[271]
Grange 139[216]
Mayals 230[216]
Newton 211[210]
Ystumllwynarth 201[215]
Pennard 163[213]
Y Garreg Wen 127[191]
LLWYNDERW 333[320]

Yn ddiddorol mae 176 o lefydd gwag yn yr ysgolion Saesneg fel grŵp, ac 13 yn ormodol yn Llwynderw.

Mae achos amlwg dros gael ysgol Gymraeg arall i'r Mwmbwls.

- Heini Gruffudd

CLWB DARLLEN TŶ TAWE

Bydd Clwb Darllen Tŷ Tawe yn cyfarfod wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers cyn y pandemig ar nos Lun Medi'r 12fed.

Os ydych yn mwynhau darllen, trafod llyfrau a chymdeithasu, beth am ymuno yn yr hwyl? Mae'r criw yn edrych ymlaen at gwrdd ac yn awyddus i groesawu wynebau newydd hefyd!

CLWB
DARLLEN

Nos Lun Medi 12fed | 7:30PM | Tŷ Tawe

Gostyngiad o 10% ar lyfr y mis yn Siop Tŷ Tawe i aelodau!

LLYFR Y MIS YW

Rhyngom
gan Sioned Erin Hughes.
Enillydd y Fedal Ryddiaith 2022. Y Llyfr, £8.99
125 tudalen gyda phrint gweddol fraif!

- Croeso i aelodau hen a newydd!
- Addas i ddysgwyr lefel Uwch

Gwybodaeth/Info: swyddfa@menterabertawe.org

TY TAWE | menter iaith abertawe | Mynhau'r

O hyn allan fe fydd y clwb yn cyfarfod yn fisol ar yr ail nos Lun am 7.30yh yn Nhŷ Tawe.

Llyfr y mis ar gyfer Medi yw 'Rhyngom' gan Sioned Erin Hughes (Enillydd y Fedal Ryddiaith 2022).

Gostyngiad o 10% i aelodau'r clwb yn Siop Tŷ Tawe!

Llyfr y mis ar gyfer Hydref fydd 'Capten' gan Meir Pierce Jones (Enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen 2022).

MEDAL I ELUNED KING

Mae Eluned King, cyn-ddisgybl o Ysgol Gymraeg Bryn-y-môr, wedi ennill medal efydd am feicio yng ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham

Dyma'i gwobr fawr gynta. Meddai, 'nid fi yw'r gyflymaf na'r gryfaf felly roedd rhaid defnyddio fy nghrebwyll. Diolch i'r teulu ac i bawb a'm cefnogodd.'

Bu'n dioddef o'r Covid adeg y Nadolig a chafodd ddamwain gas adeg y Pasg. Roedd cael medal efydd, felly, yn dipyn o gamp.

Llun: Welsh Cycling





PENCAMPWRIAETH RYGBI CYFFWRDD EWROP DAN 18

Llongyfarchiadau i Alicea Knight o flwyddyn 12, Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, am ennill medal efydd wrth gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Rygbi Cyffwrdd Ewrop dan 18 yn Ffrainc yn ystod mis Awst! Gwych!

BUDDUGOLIAETH I HELEDD!

Llongyfarchiadau enfawr i un o gynddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Heledd Owen o Dreforys, ar gipio'r Gadair dan 25ain yn Eisteddfod Llanbed ar benwythnos olaf Awst.

Gwych Heledd, mae'r adran Gymraeg yn hynod o falch o dy lwyddiant di!



YMUNWCH Â LLEISIAU LLIW

Dewch i ymuno gyda Lleisiau Lliw! Bydd côr merched Lleisiau Lliw yn ail gydio mewn ymarferion ar 5/9 am 7.15. Rydym yn ymarfer bob nos Lun yng Nghapel Hope-Siloh, Pontarddulais. Berian Lewis yw ein harweinydd a Luned Jones yw ein cyfeilydd. Rydym ni wastad yn awyddus i gael aelodau newydd felly dewch i ymuno gyda ni! Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Catrin Llyall drwy ebost - catrin_lyall@yahoo.co.uk

Lun: perfformio yn Llansamlet a chroesawu Lena o Mariupol i un o'n hymarferion.



DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

I ddathlu canmlwyddiant a hanner capel Y Tabernacl, Treforys, mae'r rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol yn dod i recordio rhifyn arbennig.

Ymunwch yn y gymanfa - 16.10.22.

Cynulleidfa i gyrraedd erbyn 2yh.



DECHRAU CANU
DECHRAU CANMOL

Cymanfa'r Dathlu
Sul 16.10.22

Dewch i sarnu mawr gyda chorau'r ardal i ddathlu canmlwyddiant a hanner Y Tabernacl, Treforys ar gyfer rhifyn arbennig o'r gyfres boblogaidd Dechrau Canu, Dechrau Canmol.

Y gynulleidfa i gyrraedd am 2.00pm
Recordio 2.30 - 4.00pm
Croeso i bawb

Arweinydd: Parchedig Rob Nicholls
Organydd: Huw Tegwales Williams

RONDO SAC

Myfyrdod a Meddwlgarwch

- sut gall doethineb hynafol
Bwdha ein helpu ni heddiw

PONTARDULAIS
Nos Fawrth, 12 Medi 7-8yh
11 Insistret, 45 Stryd Sant Teio,
Pontardulais, SA4 6SY

ABERTAWE
Nos Fawrth, 14 Medi 7-8yh
17 Tawe, 9 Stryd Christies,
Abertawe, SA1 4EW

PONTARDAWE
Nos Wener, 16 Medi 7-8yh
17 Stryd Gwyn, Stryd Hally,
Pontardawe, SA8 4ET

Sgyrsiau am fyfyrdod am ddim a thrwy'r Gymraeg gan Ganolfan Myfyrto Kadampa Cymru.

GWEITHGAREDDAU I SIARADWYR NEWYDD

Mae Menter Iaith Abertawe yn cynnig y ddwy weithgaredd yma yn wythnosol i siaradwyr newydd.

Mae'r caffi yn cwrdd bob bore Sadwrn 10-12 yn Nhŷ Tawe tra bod y Cylch Clebran yn cwrdd dros Zoom bob bore Mercher am llyb.

Cysylltwch â datblygu@menterabertawe.org am wybodaeth bellach.



MENTER IAITH
abertawe

Tŷ Tawe, 10YB - 12YH
BOB BORE SADWRN

**CAFFI BORE
SADWRN**

Mwynhau'r Gymraeg

DEWCH DRAW AM SGWRS A PHANED!
CROESO I SIARADWYR O BOB LEFEL!

SPEAK WELSH IN AN INFORMAL SETTING. SESSIONS FREE OF
CHARGE. COME ALONG FOR A CHAT AND A CUPPA!



CYLCH CLEBRAN
Dydd Mercher/ Weds
11 - 12.30

Sesiwn sgwrsio hwylys ac anffurfiol!
Croeso mawr i siaradwyr o bob lefel!

Informal and fun chat session.
Warm welcome to everyone!

Zoom Meeting ID: 971 3967 1667

Mwynhau'r Gymraeg

MENTER IAITH
abertawe

SESIYNAU PÊL-DROED CYMRAEG

Dros yr haf cynhaliwyd 4 sesiwn pêl-droed cyfrwng Cymraeg i blant Abertawe rhwng 5-12 oed yng Nghanolfan Chwaraeon yr Elba yn Nhre-Gŵyr.

Trefnwyd y sesiynau ar y cyd rhwng Menter Iaith Abertawe a'r Swansea City AFC Foundation o dan nawdd grant 'Haf o Hwyl' Llywodraeth Cymru.

Bu dros 80 o blant yr ardal yn mynychu'r sesiynau dros y 4 diwrnod i gyd ac yn mwynhau chwarae a dysgu sgiliau newydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Daeth Corey Hurfod a Josh Thomas, dau o sêr Academi Tîm Pêl-droed Dinas Abertawe, i arwain un o'r sesiynau. Mae'r ddau'n siarad Cymraeg a chafwyd cyfle i sgwrsio ac ateb cwestiynau.

Llun: Menter Iaith Abertawe





✦ ✦ ✦ CERDDORIAETH IAITH ✦ ✦ ✦ GYMRAEG YN ABERTAWE

Mae Menter Iaith Abertawe yn falch iawn i lansio prosiect newydd a fydd yn gweld cyfres o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw iaith Gymraeg, dwyieithog, ac amlieithog ar draws y ddinas dros y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r prosiect yn anelu i adeiladu ar y sîn cerddoriaeth iaith Gymraeg yn y ddinas, gan gynnig llwyfan rheolaidd i artistiaid o'r ardal a thu hwnt i berfformio, yn ogystal â chynnig cyfleoedd cyson i bobl Abertawe i fwynhau cerddoriaeth iaith Gymraeg o'r safon uchaf.

Dywedodd Tomos Jones, Prif Swyddog Datblygu Menter Iaith Abertawe, "Rydym yn gwybod bod cerddoriaeth yn gallu bod yn gyflwyniad gwych i ieithoedd, gyda llwyddiant artistiaid fel Super Furry Animals, Gorky's Zygotic Myncci, ac yn fwy diweddar Adwaith a Sage Todz yn ysbrydoli nifer i gymryd diddordeb yn yr iaith Gymraeg. Rydym am bwysleisio bod y digwyddiadau yma'n agored i bawb - does dim angen i chi deall y geiriau i fwynhau cerddoriaeth wych!".

GIGS YR HYDREF

Mae'r digwyddiadau cyntaf, wedi rhaglennu mewn cydweithrediad â'r Swansea Music Hub a PYST, gyda setiau gan Parisa Fouladi, Bryn Fôn, HMS Morris, a llawer mwy ar werth nawr. Mae tocynnau ar gael o wefan y Fenter (www.menterabertawe.org) neu wyneb yn wyneb trwy Siop Tŷ Tawe.

Bydd tocynnau am ddim ar gyfer pob digwyddiad ar gael i fyfyrwyr Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe diolch i gefnogaeth bellach gan Brifysgol Abertawe.





RHAGLEN LAWN MEDI-RHAGFYR 2022

15.9 – Parisa Fouladi + Mabli (Mission Gallery)

16.9 – Mei Gwynedd a'r Band + Wigwam (Tŷ Tawe)

23.9 – Chroma + SYBS + Red Telephone (Elysium)

6.10 – N'famady Kouyate + Tom Emlyn (COPR)

8.10 – Gafael Tir (Tŷ Tawe)

15.10 – R*E*P*E*A*T: Breichiau Hir + The Night School (Tŷ Tawe)

21.10 – Bryn Fôn + Derw (Tŷ Tawe)

29.10 – Worldcub + Awst (The Bunkhouse)

4-6.11 – Gŵyl Ymylol Abertawe

18.11 – Burum (Tŷ Tawe)

24.11 – NAWR: Ffrancon + Sachasom (Tŷ Tawe)

3.12 – HMS Morris + Ynys (Bunkhouse)

8.12 – Gareth Bonello + Lowri Evans (COPR)

Ymholiadau digwyddiadau:

swyddfa@menterabertawe.org



SESIYNAU MENTER IAITH ABERTAWWE

Dros y flwyddyn nesaf bydd Menter Iaith Abertawe yn gwahodd cyfres o artistiaid mwyaf cyffrous Cymru i amrywiaeth o leoliadau eiconig ar draws dinas Abertawe.

Bydd y sesiynau byw arbennig yma, wedi'u recordio mewn partneriaeth â Ffoto Nant a Stiwdio Sain, yn cynnwys artistiaid yn defnyddio'r iaith Gymraeg mewn ffyrdd amrywiol a chyffrous.

Bwriad y sesiynau yw cyflwyno'r iaith Gymraeg i lefydd newydd a gwahanol, yn ogystal â chynnig plattform ychwanegol i artistiaid newydd.

Bydd y lleoliadau yma'n cynnwys yr Oriel Glynn Vivian, Amgueddfa Abertawe, Derricks Music, yr Oriel Mission, The Bunkhouse, Amgueddfa'r Glannau, yr Oriel Elysium, yn ogystal â lleoliad y Fenter - Tŷ Tawe.

AR GAEL NAWR

Mae'r ddau sesiwn cyntaf yn cynnwys Ynys yn fyw o Dŷ Tawe, ac Eädyth x Izzy Rabey yn fyw o'r Oriel Glynn Vivian ar gael i'w gwyllo nawr ar ap AM Cymru, gwefan AM (amam.cymru/tytawe) ac ar sianel YouTube Menter Iaith Abertawe.



15.10.22
TY TAW
ABERTAW

MENTER IAITH ABERTAW A R'F'F'A'T' YN CYFLWYNO

BREICHAU HIR THE NIGHT SCHOOL



19:00 / £6
MENTERABERTAW.ORG

